



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Gwneud eich apêl yn erbyn hysbysiad barnu'n annilys

## Cymru

---

Mae'r canllaw hwn yn dangos i chi:

- Sut i lenwi eich ffurflen apêl
- Y darpariaethau ar gyfer gwneud apêl
- Sut i gysylltu â ni

Mae hyn yn gymwys ar gyfer  
ceisiadau a wneir ar 16 Mawrth 2016  
neu ar ôl hynny yn unig

Mai 2017

# Cynnwys

**Cliciwch ar yr adran rydych chi eisiau ei gweld:**

Cynnwys .....	1
Cyn i chi ddechrau .....	2
Beth yw Hysbysiad Barnu'n Annilyd .....	2
Eich apêl.....	2
Cyflwyno eich apêl .....	3
Dyddiadau cau.....	3
Llenwi'r ffurflen apêl .....	4
Manylion yr Apelydd .....	4
Manylion yr Asiant.....	4
Manylion yr Awdurdod Cynllunio Lleol .....	4
Cyfeiriad Safle'r Apêl .....	4
Disgrifiad o'r Datblygiad.....	5
Math o gais .....	5
Seiliau'r apêl .....	5
Dogfennau ategol hanfodol.....	7
Manylion personol .....	8
Cyflwyno eich apêl.....	8
Cysylltu â ni.....	9
<b>Cael cymorth</b> .....	9
<b>Atodiad 1</b> .....	10
<b>Atodiad 2</b> .....	12

**Os oes arnoch angen y canllaw hwn wedi'i arddangos mewn ffont gwahanol neu i'w gael wedi'i ddarllen ar goedd, defnyddiwch y bariau offer 'zoom' a 'view' yn Adobe Reader. Bydd angen i chi fod ag Adobe 6 neu'n uwch er mwyn i hyn weithio.**

# Cyn i chi ddechrau

Cyn i chi wneud eich apêl, dylech fynd i drafodaethau gyda'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI).

Dylech ond wneud eich apêl os na allwch ddod i gytundeb gyda'r ACLI.

## Beth yw hysbysiad Barnu'n Annilyd

Ar gyfer ceisiadau a wneir ar 16 Mawrth 2016 neu ar ôl hynny, ceir darpariaeth sy'n caniatáu apêl yn erbyn hysbysiad a gyhoeddir gan yr ACLI fod cais yn annilyd. Mae'n gymwys i geisiadau am ganiatâd cynllunio ac ar gyfer unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllun yn ddarostyngedig iddo.

Os bydd yr ACLI yn ystyried nad yw cais ar gyfer caniatâd cynllunio (neu unrhyw beth a ddaw gydag ef) yn cydymffurfio â gofyniad dilysu (gweler Adran 62 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990), mae'n rhaid iddynt roi hysbysiad i'r ymgeisydd i'w hysbysu bod y cais yn annilyd.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad esbonio'r gofynion dan sylw (mewn perthynas ag Adran 62 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) ac esbonio pam nad yw'r cais yn cydymffurfio â'r gofynion dilysu.

Yn achos cais am gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth (sy'n ofynnol gan unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo), mae'n rhaid i'r ACLI roi hysbysiad nad yw'r cais yn ddilys os ydynt yn ystyried nad yw'r cais yn cydymffurfio â thelerau'r caniatâd cynllunio, oherwydd bod yr ymgeisydd wedi methu â chynnwys gwybodaeth yn y cais neu ddarparu dogfennau neu ddeunyddiau eraill gydag ef. Mae'n rhaid i'r hysbysiad yn yr achos hwn esbonio pa wybodaeth, dogfennau neu ddeunyddiau mae'n ofynnol i'w cyflwyno.

## Eich apêl

Ar ôl derbyn hysbysiad bod cais yn annilyd, mae gennych chi (yr ymgeisydd) gyfnod o bythefnos o ddyddiad yr hysbysiad i gyflwyno apêl i ni yn erbyn barnu'r cais yn annilyd.

Mae'n rhaid gwneud yr apêl trwy lenwi'r ffurflen apêl barnu'n annilyd a'i chyflwyno gyda'r dogfennau canlynol:

- Copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr ACLI;
- Copi o'r cais a wnaed i'r ACLI;

- Copi o'r ffurflenni, dogfennau, cynlluniau, lluniadau, mynegiadau, datganiadau, tystysgrifau, manylion neu dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ACLI mewn cysylltiad â'r cais;
- Copi o'r hysbysiad o'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio (*sylwer bod hyn ond yn berthnasol lle bo'r apêl yn perthyn i gais am gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo*).

Yn ogystal, mae'n rhaid i chi anfon i'r ACLI, mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol, gopi o'r ffurflen apêl wedi'i llenwi (a dogfennau) a gyflwynwyd i ni, fel bod yr awdurdod yn ymwybodol y cafodd apêl ei gwneud, a pha wybodaeth a roddwyd i herio'r hysbysiad o farnu'n annilys. Mae hyn fel na fydd yr ACLI yn cymryd camau pellach ar y cais nes y bydd deilliant yr apêl yn hysbys.

Pan dderbyniwn eich apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch ac at yr ACLI er mwyn rhoi cyfeirnod yr apêl i chi. Mae gennym darged o 21 o ddiwrnodau i ystyried a phennu eich apêl pan gaiff ei dilysu.

Os cynhelir yr apêl, nid oes angen i'r wybodaeth a geisir gan yr ACLI gael ei chyflwyno er mwyn canfod bod yr apêl yn ddilys. Os caiff yr apêl ei gwrthod, mae'n rhaid i chi benderfynu rhwng cyflwyno'r wybodaeth i'r ACLI neu dynnu'r cais yn ôl. Fe'ch anogir i gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn eu hysbysu o'ch bwriad, a'r amserlen debygol.

Os caiff apêl ei gwrthod ac na chafodd y wybodaeth a oedd yn ofynnol ei chyflwyno o fewn amserlen resymol, neu os nad ydych wedi rhoi gwybod i'r ACLI am eich bwriad, dylai'r awdurdod ddychwelyd y cais a'r ffi gysylltiedig i chi.

## Cyflwyno eich apêl

Gallwch anfon eich ffurflen apêl atom drwy neges e-bost. Bydd cyflwyno eich ffurflen a'r dogfennau ategol yn electronig yn sicrhau bod proses eich apêl mor effeithlon â phosibl. Fel arall, gallwch bostio eich ffurflen apêl neu ei chyflwyno â llaw. Os byddwch yn cyflwyno eich apêl â llaw, dylech ofyn i ni am dderbynneg. Rhoddir ein manylion cyswllt ar dudalen 7 y ffurflen apêl ac ar dudalen 7 y canllaw hwn.

Gweler [Atodiad 1](#) am ganllawiau ar gyflwyno dogfennau electronig ac [Atodiad 2](#) am gyngor ar gyflwyno ffurflenni apêl a ysgrifennwyd â llaw.

## Dyddiadau cau

Mae'n rhaid i chi anfon eich apêl a'r dogfennau ategol hanfodol atom **ac**, ar yr un pryd, at yr ACLI fel y cânt eu derbyn o fewn 2 wythnos o'r dyddiad a ddangosir ar hysbysiad yr ACLI o farnu'n annilys.

Gallwch eu hanfon at yr ACLI drwy neges e-bost neu'r post. Dylai manylion cyswllt ar gyfer yr ACLI ddod ynghyd â'r hysbysiad o farnu'n annilys.

**Os na fyddwn yn derbyn eich apêl a'r dogfennau o fewn y terfyn amser, mae'n bosibl na fyddwn yn derbyn eich apêl.**

## Llenwi'r ffurflen apêl

Yn y canllaw hwn, rydym yn defnyddio'r un penawdau adran ag sydd yn y ffurflen apêl yn erbyn hysbysiad barnu'n annilys.

## Manylion yr Apelydd

Dim ond yr unigolyn a wnaeth y cais all wneud apêl. Felly, mae'n rhaid i bob apêl fod ag enw'r ymgeisydd gwreiddiol arni.

Os na wnaethoch y cais gwreiddiol (e.e. mae'n bosibl y byddwch wedi prynu'r safle yn ddiweddar) ac rydych yn dymuno apelio, mae'n rhaid i chi fynnu caniatâd ysgrifenedig yr ymgeisydd/ymgeiswyr er mwyn caniatáu i chi wneud hyn. Byddech yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n deillio o'r apêl. Rhowch eich enw yn y llinell "Enw" wedi'i ddilyn gan "ar ran" ac wedyn enw'r ymgeisydd gwreiddiol. Mae'n rhaid i chi anfon y caniatâd ysgrifenedig wedi'i lofnodi atom gyda'ch ffurflen apêl.

## Manylion yr Asiant

Nid oes rhaid i chi gyflogi asiant i ymdrin â'ch apêl. Os byddwch yn penderfynu cyflogi asiant, bydd ef neu hi yn debygol o lenwi'r ffurflen apêl ar eich rhan.

Os oes gennych asiant, byddwn yn anfon ein holl gyfathrebiadau atynt. Ni fyddwn yn anfon copi atoch chi. Dylech sicrhau eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'ch asiant oherwydd y caiff yr hysbysiad o'r penderfyniad ei anfon atyn nhw.

## Manylion yr Awdurdod Cynllunio Lleol

Fel arfer bydd y wybodaeth hon yn yr hysbysiad barnu'n annilys a dderbynioc'h gan yr ACLI.

## Cyfeiriad Safle'r Apêl

Os nad oes gan safle'r apêl god post, rhowch god post yr adeilad agosaf. Yn ogystal, dylech ddarparu gwybodaeth i'n helpu i adnabod y safle, e.e. map neu gynllun sy'n dangos y safle ac o leiaf 2 ffordd wedi'u henwi neu â rhifau arnynt.

# Disgrifiad o'r Datblygiad

Mae angen i chi ddarparu manylion y datblygiad arfaethedig. Fel arfer bydd hyn yn union fel y'i disgrifiwyd gennych ar y ffurflen gais cynllunio.

## Math o Gais

Dylai hysbysiad barnu'n annilys yr ACLI egluro'r gofynion penodol dan sylw ac esbonio pam nad yw'r cais yn cydymffurfio â'r cofnodion dilysu.

## Seiliau'r apêl

Dylech restru holl seiliau eich apêl yn glir ac yn gryno a chanolbwyntio ar y rhesymau pam fo eich cais yn bodloni'r gofynion ac na ddylai fod yn destun hysbysiad barnu'n annilys. Dylech osgoi ailadrodd a gwybodaeth nad yw'n perthyn i'r materion dan sylw. Nid yw'n ddigon i ddweud nad ydych yn cytuno â'r hysbysiad barnu'n annilys – ni fydd hyn yn helpu'r unigolyn penodedig i benderfynu ar eich apêl. Dylai seiliau'r apêl fod yn glir ac yn gryno. Dylid sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddogfennaeth ategol heblaw am y ddogfennaeth a restrir yn adran y dogfennau ategol hanfodol. Dylai fod yn hanfodol ac yn uniongyrchol berthnasol i'r apêl. Dylid croesgyfeirio'r ddogfennaeth hon yn glir yn seiliau'r apêl.

Os ydych yn ystyried ei fod yn hanfodol cyflwyno trywyddion negeseuon e-bost er mwyn cefnogi seiliau eich apêl, dylech olygu'r negeseuon e-bost yn ofalus er mwyn dileu ailadrodd a chodi'r pwyntiau allweddol yn glir.

Wrth ddewis pa un o'r seiliau penodol ar gyfer apelio yr dymunech gyfeirio ati, dylech ystyried pa un ohonynt sy'n berthnasol i amgylchiadau penodol eich achos. Mae setiau o seiliau ar wahân yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd cynllunio a cheisiadau am gydsyniad neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn ôl amodau neu gyfyngiadau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio presennol (y cyfeirir atynt yn aml fel cheisiadau 'bodloni amod'). Mae'r adrannau canlynol yn esbonio pob un o'r seiliau a dylech eu darllen yn drylwyr cyn cwblhau'r ffurflen apelio.

## Seiliau yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd cynllunio

2a) *Mae'r cais yn cydymffurfio â'r gofyniad a nodir yn yr hysbysiad.*

Dylid pledio'r sail hon ar gyfer apelio pan fyddwch o'r farn **y cydymffurfiwyd eisoes â'r gofyniad fel y'i nodir yn yr hysbysiad**. Er enghraifft, mae'r hysbysiad yn gofyn am gyflwyno cynllun lleoliad, ac mae'r cynllun hwnnw wedi'i ddarparu eisoes.

Nid yw'r sail hon yn berthnasol os yw'r gofyniad a'r wybodaeth neu ddogfen a gyflwynwyd yn wahanol mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, mae'r hysbysiad yn gofyn am gyflwyno ffurflen gais gan ddeiliad tŷ ac rydych wedi cyflwyno'r ffurflen ar gyfer cais cynllunio safonol. Ni fydd hyn o reidrwydd yn golygu bod y cais yn annilys, ond oherwydd bod y ffurflenni'n wahanol, ni allai cyflwyno un ohonynt gydymffurfio'n rhesymegol â gofyniad i gyflwyno'r llall. Yn yr achos hwnnw, mae'n bosibl y byddai seiliau eraill yn fwy priodol – gweler isod.

*2b) Nid yw'r cais yn un y mae'r gofyniad yn berthnasol iddo.*

Dylid pledio'r sail hon ar gyfer apelio pan fyddwch o'r farn nad yw'r gofyniad a osodir allan yn yr hysbysiad yn berthnasol i'r math o gais rydych yn ei wneud.

Er enghraifft, mae'r hysbysiad yn gofyn am gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad, **a allai fod yn ofynnol ar gyfer rhai ceisiadau** (e.e. ceisiadau ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau mawr), **ond rydych yn gwneud cais o fath gwahanol** (e.e. cais gan ddeiliad tŷ) ac felly nid yw'r gofyniad yn berthnasol.

*2c) Nid yw'r gofyniad yn ofyniad dilysu mewn perthynas â'r cais.*

Dylid pledio'r sail hon ar gyfer apelio pan fyddwch o'r farn y gallai'r gofyniad a osodir allan yn yr hysbysiad **fod yn berthnasol** i'ch achos, **ond nid yw'n ofynnol ar gyfer dilysu'r cais**. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yr ACLI yn gofyn am wybodaeth bellach yn ymwneud â darpariaeth mynediad i safle, a allai fod yn ofynnol i'w helpu i wneud penderfyniad, ond nid oes ei hangen er mwyn i'ch cais gael ei ystyried yn ddilys a gellir gofyn am hyn yn ddiweddarach.

*2d) Nid yw'r wybodaeth neu'r dystiolaeth y mae'r ACLI wedi gofyn amdani'n rhesymol, o ystyried natur a graddfa'r datblygiad a gynigir a/neu nid yw'n rhesymol i'r ACLI feddwl y bydd y mater y mae'r gofyniad yn ymwneud ag ef yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar y cais.*

Dylid pledio'r sail hon ar gyfer apelio pan fyddwch o'r farn **y gallai'r** gofyniad a osodir allan yn yr hysbyseb fod yn **ofyniad dilysu** mewn perthynas â'r cais rydych yn ei wneud, **ond mae'r ACLI yn ymddwyn yn afresymol wrth ofyn amdano** oherwydd graddfa eich cynnig, neu'r ffaith ei fod yn ymwneud â mater nad yw'n berthnasol yn eich achos chi.

Er enghraifft, mae'r ACLI yn gallu gofyn am `...unrhyw gynlluniau, dyluniadau neu wybodaeth arall sy'n angenrheidiol ar gyfer disgrifio'r datblygiad a gynigir' ar gyfer dilysu eich cais, ond gallai fod yn afresymol iddo ofyn am gyfres o weddau os gellir deall y cynnig hebddynt, neu am gyfres o gynlluniau draenio os nad oes unrhyw reswm i feddwl y byddai draenio'n broblem yn eich achos chi.

Seiliau yn ymwneud â cheisiadau am gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn ôl amod neu gyfyngiad sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio presennol

*3a) Roedd y cais yn cynnwys y wybodaeth, neu fe'i cyflwynwyd gyda'r dogfennau neu ddeunyddiau eraill a nodir yn yr hysbysiad.*

Dylid pledio'r sail hon ar gyfer apelio pan fyddwch o'r farn **y cydymffurfiwyd eisoes â'r gofyniad a osodir allan yn yr hysbysiad.**

Er enghraifft, mae amod sydd ynghlwm wrth eich caniatâd cynllunio yn gofyn am gyflwyno cynllun tirlunio ac mae un wedi'i ddarparu eisoes.

*3b) Nid yw darparu'r wybodaeth, y dogfennau neu'r deunyddiau y gwneir cais ar eu cyfer yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â thelerau'r caniatâd cynllunio.*

Dylid pledio'r sail hon ar gyfer apelio pan fyddwch o'r farn **nad yw'r gofyniad a osodir allan yn yr hysbysiad yn ofynnol yn ôl eich caniatâd cynllunio.**

Er enghraifft, mae'r ACLI yn gofyn am gyflwyno samplau o ddeunyddiau toi ar gyfer eu cymeradwyo, ond nid oes unrhyw amod ynghlwm wrth eich caniatâd sy'n gofyn am gyflwyno deunyddiau ar gyfer eu cymeradwyo, neu mae amod sy'n gofyn am gyflwyno deunyddiau ond nid yw'n cynnwys deunyddiau ar gyfer toi.

*3c) Mae'r cyfnod a ragnodir yn dechrau rhedeg heb ystyried p'un ai y darperir y wybodaeth, y dogfennau neu'r deunyddiau y gwneir cais ar eu cyfer.*

Dylid pledio'r sail hon ar gyfer apelio pan fyddwch o'r farn **nad yw'r gofyniad a osodir allan yn yr hysbysiad yn ofynnol dilysu ar gyfer ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio.**

Er enghraifft, mae'r ACLI yn gofyn am gyflwyno ffurflen gais cynllunio, nad yw'n ofynnol ar gyfer gwneud cais dilys am gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn ôl amod neu gyfyngiad sydd ynghlwm wrth roi caniatâd cynllunio presennol.

## Dogfennau Ategol Hanfodol

Rydym wedi rhestru'r dogfennau sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar y ffurflen apêl yn erbyn hysbysiad barnu'n annilys. Os na fyddwn yn derbyn eich holl ddogfennau ategol hanfodol erbyn diwedd y cyfnod apelio o 2 wythnos, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu parhau a byddwch yn colli eich hawl i apelio. Sicrhewch eich bod wedi anfon popeth atom; os na wnaethoch, caiff eich apêl ei hoedi tra ein bod yn gofyn am y dogfennau coll oddi wrthyhych neu, o bosibl, caiff eich apêl ei gwrthod os na chaiff yr holl ddogfennau eu cyflwyno erbyn y terfyn amser o 2 wythnos.



Sicrhewch eich bod wedi rhestru'r holl gynlluniau/lluniadau rydych yn eu hanfon atom a'u bod yn cynnwys cyfeiriad at y raddfa, cyfeiriadedd a maint y papur. Dylech anfon atom **bob** cynllun a anfonir at yr ACLI gyda'ch cais

Ni ddylech geisio cyflwyno deunydd newydd pan fyddwch yn gwneud eich apêl na chafodd ei ystyried gan yr ACLI fel rhan o'r broses ddilysu.

## Manylion Personol

### **Manylion Personol yr Apelydd/Manylion Personol yr Asiant/Manylion Perchenogaeth Safle'r Apêl/Tystysgrif Daliadau Amaethyddol**

Ni fydd manylion personol a ddarperir ar y dudalen hon ar gael i'r cyhoedd.

#### E-bost

Os byddwch yn ticio'r blwch hwn i ddweud bod yn well gennych ein bod yn cysylltu â chi drwy neges e-bost, lle bo'n bosibl, byddwn yn anfon ein llythyrau atoch drwy neges e-bost, ac ni fyddwn yn anfon copïau papur.

## Cyflwyno eich apêl

### **Llofnodwch**

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb defnyddiol o'r pethau mae'n angenrheidiol eich bod wedi eu gwneud. Gwiriwch eich ffurflen gyflawn yn ofalus, wedyn ei llofnodi a'i dyddio.

### **Wedyn anfonwch**

Sylwch fod **rhaidd i ni dderbyn** eich ffurflen apêl a **phob** dogfen ategol o fewn y terfyn amser o 2 wythnos.

**Mae'n rhaid i chi anfon copi o'r ffurflen apêl gyflawn at yr ACLI.** Os na wnewch chi hyn, mae'n bosibl na fyddwn yn derbyn eich apêl. Nid oes rhaid i chi anfon yr holl ddogfennau atynt eto. Os ydych yn cyflwyno unrhyw ddogfennau nad oeddent yn rhan o'ch cais cynllunio, mae'n rhaid i chi anfon y rhain at yr ACLI gyda'r ffurflen apêl.

### **Cyfathrebu Electronig**

Yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygiadau) (Cymru) 2012, **sylwch**, lle caiff apêl ei gwneud gan ddefnyddio cyfathrebu electronig (e-bost; y porth cynllunio), cymerir yn ganiataol y rhoddwyd cytundeb ar gyfer defnyddio cyfathrebu electronig at ddibenion yr apêl, tan y rhoddir hysbysiad ysgrifenedig o dynnu'r cydsyniad i ddefnyddio cyfathrebu electronig yn ôl.

Os byddwch yn cyflwyno apêl neu unrhyw ddogfen arall trwy gyfathrebu electronig, ni chaiff y ddogfen honno ei thrin fel un a gyflwynir tan

- Fod y derbynydd yn gallu ei chyrchu:
- Iddi fod yn ddarllenadwy ym mhob ystyr sylweddol<sup>1</sup>; ac
- Iddi fod yn ddigon parhaol i gael ei thrin fel dogfen y gellir cyfeirio ati'n hwyrach

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd ar gael ar <http://planninginspectorate.gov.wales/accessinfo/?lang=cy> neu ar gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi, neu os ydych yn dymuno gwneud cais ar gyfer eich data personol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod:

## Cysylltu â ni

Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 823866

E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk)

## Cael help

Os hoffech chi gael help o ran cymryd rhan mewn apêl cynllunio, gallwch gysylltu â Cymorth Cynllunio Cymru, sy'n darparu gwasanaeth cyngor annibynnol ac yn rhad ac am ddim ar faterion cynllunio gwlad a thref i bobl a grwpiau na allant fforddio ffioedd ymgynghori. **Dylech fod yn ymwybodol bod Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithredu meini prawf cymhwyster er mwyn sicrhau y darperir eu gwasanaethau i'r rhai sydd fwyaf anghenus.**

Gallwch gysylltu â:

Cymorth Cynllunio Cymru  
Llawr Cyntaf  
174 Whitchurch Road  
Mynydd Bychan  
Caerdydd  
CF14 3NB

Ffôn: 02920 625000

Gwefan: [www.planningaidwales.org.uk](http://www.planningaidwales.org.uk)

---

<sup>1</sup> Nid yw'r wybodaeth sy'n gynwysedig yn yr hysbysiad neu'r ddogfen ar gael i'r derbynydd i raddau llai nag y byddai pe anfonwyd neu rhoddwyd drwy ddogfen argraffedig

## Atodiad 1

Canllawiau ar gyflwyno dogfennau electronig

<b>Fformatau ffeiliau derbyniol</b>	<table border="1"><tbody><tr><td>PDF</td><td>.pdf</td></tr><tr><td>Microsoft Word</td><td>.doc neu .docx</td></tr><tr><td>TIF</td><td>.tif neu .tiff</td></tr><tr><td>JPEG</td><td>.jpg neu .jpeg</td></tr><tr><td>ZIP</td><td>.zip</td></tr></tbody></table>	PDF	.pdf	Microsoft Word	.doc neu .docx	TIF	.tif neu .tiff	JPEG	.jpg neu .jpeg	ZIP	.zip
PDF	.pdf										
Microsoft Word	.doc neu .docx										
TIF	.tif neu .tiff										
JPEG	.jpg neu .jpeg										
ZIP	.zip										
<b>Maint ffeiliau</b>	<p>Ni chaiff dogfennau a gyflwynir fod yn fwy na 15mb yr un. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich dogfennau'n faint hydrin</p> <p>Os oes gennych ddogfennau sy'n fwy na hyn, gallwch roi cynnig ar y canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Torri dogfennau hir yn nifer o ffeiliau, ond sylwch ar y confensiynau enwi ffeiliau isod.</li><li>• Ceisiwch ddefnyddio du a gwyn lle bo'n bosibl (oni bai eich bod yn cyflwyno ffotograffau).</li><li>• Os ydych yn cyflwyno delweddau, mae'n bosibl bod gan eich medalwedd gyfleusterau cywasgu ffeiliau/delweddau er mwyn eu gwneud yn llai.</li><li>• Cofiwch fod dogfennau wedi'u sganio fel arfer yn fwy na fersiynau heb eu sganio.</li><li>• Cyhyd â'ch bod yn defnyddio'r mathau ffeil derbyniol uchod, gallwch ddefnyddio ffeiliau ZIP i gywasgu dogfennau.</li><li>• Os oes gennych ffeil fawr ac yn methu defnyddio'r opsiynau a restrir, gallwch anfon unrhyw beth hyd at 10mb at <a href="mailto:wales@pins.gsi.gov.uk">wales@pins.gsi.gov.uk</a>.</li></ul>										
<b>Diogelwch</b>	<p>Dilewch unrhyw ddiogelwch dogfennau a galluogi macros os oes angen. Ni ddylid amddiffyn dogfennau gyda chyfrineiriau, ni ddylent fod â'r fformat 'darllen yn unig' a dylai fod yn bosibl i'w hargraffu.</p>										
<b>Hawlfraint</b>	<p>Sicrhewch fod caniatâd y perchennog gennych a'ch bod wedi talu unrhyw ffi trwydded hawlfraint cyn anfon dogfennau i mewn.</p>										
<b>Enwau ffeiliau</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Sicrhewch fod gan bob dogfen enw disgrifiadol, gan gynnwys y math o ddogfen rydych yn ei hanfon, e.e. '<i>Cynllun arfaethedig 1 Mawrth 2014</i>'</li><li>• Rhowch rifau ar atodlenni a'u cyflwyno fel dogfennau ar wahân. Sicrhewch fod y dudalen gyntaf yn cynnwys rhif yr atodlen. Enwch nhw er mwyn dangos yr hyn maent yn ffurfio rhan ohono, a'u dilyniant e.e. '<i>Datganiad apêl Atodiad 2 Cyfrifiad Traffig.</i>'</li></ul>										

<b>Sganio</b>	Sicrhewch fod pob dogfen yn gyflawn ac yn ddarllenadwy ac osgowch sganio mwy nag un ddogfen i mewn i ffeil unigol. Defnyddiwch ddu a gwyn oni bai bod lliw yn hanfodol.
<b>Arolwg Ordnans</b>	<p>Caiff pobl ond sganio map Arolwg Ordnans os ydynt;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Â thrwydded flynyddol i wneud copïau; neu</li> <li>• Os ydynt wedi prynu trefniant swmp o gopïau; neu</li> <li>• Os ydynt yn defnyddio map a gyflenwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol o dan y cynllun dychwelyd mapiau (y mae ffi fel arfer yn daladwy fel arfer yn ôl disgrisiwn yr awdurdod cynlluno lleol), neu</li> <li>• Wedi prynu'r map sy'n benodol i'r safle at ddiben ei atodi i gais cynllunio, apêl neu sylw.</li> </ul> <p>Mae rhagor o wybodaeth ar drwyddedu mapiau ar gael ar wefan yr Arolwg Ordnans:  <a href="http://www.ordnancesurvey.co.uk/support/licensing.html">http://www.ordnancesurvey.co.uk/support/licensing.html</a></p>
<b>Delweddau</b>	Anfonwch luniau, ffotograffau, cynlluniau, mapiau neu luniadau fel ffeiliau unigol. Osgowch defnyddio delweddau 'bitmap', gan eu bod yn fawr iawn.
<b>Hyper gysylltiadau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddylech ddefnyddio hypergysylltiadau o fewn dogfennau rydych yn eu hanfon atom. Yn lle hynny, dylech lawrlwytho dogfennau o'r fath eich hun a'u hatodi ar wahân.</li> <li>• Ni ddylech ddefnyddio hypergysylltiadau i dudalen gwefan sy'n cynnwys nifer o ddogfennau neu ddolenni.</li> </ul>
<b>Fformatio</b>	Dylech chi sicrhau eich bod yn rhoi rhifau ar bob tudalen yn briodol.
<b>Dogfennau sydd 'I ddilyn'</b>	Dylech chi anfon yr holl ddogfennau sy'n ofynnol ar adeg gwneud yr apêl. Os na fydd hyn yn bosibl, mae'n rhaid i chi anfon unrhyw ddogfennau wedi'u marcio 'I ddilyn', cyn gynted ag y bo modd, o ddewis drwy neges e-bost at <a href="mailto:wales@pins.gsi.gov.uk">wales@pins.gsi.gov.uk</a> . Caiff y dogfennau eu rhestru ar y copi o'r hyn a anfonoch atom. Yn ogystal, mae'n rhaid i chi anfon copi at yr awdurdod cynllunio lleol, yn ogystal ag anfon copi o'ch ffurflen apêl atynt.
<b>Anfon negeseuon e-bost</b>	<p>Os byddwch yn anfon unrhyw beth drwy neges e-bost, dylech gael cynabyddiaeth, cyhyd ag y cafodd ei anfon at <a href="mailto:wales@pins.gsi.gov.uk">wales@pins.gsi.gov.uk</a> neu at gyfeiriad e-bost tîm (gallwch ddod o hyd iddo ar frig llythyrau oddi wrthym ynglŷn â'r apêl). Os na wnewch chi dderbyn cydnabyddiaeth awtomatig, dylech gysylltu â ni.</p> <p>Ar gyfer unrhyw ohebiaeth y byddwch yn ei hanfon atom drwy neges e-bost, dylech</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddyfynnu cyfeirnod yr apêl a/neu enw'r apelydd, cyfeiriad y safle ac enw'r awdurdod cynllunio lleol yn y llinell pwnc neu yng nghorff eich neges e-bost</li> <li>• Os ydych yn atodi mwy nag un ddogfen, rhestrwch nhw yn y neges e-bost atodol.</li> <li>• Os ydych yn anfon cyfres o negeseuon e-bost, dylech gynnwys '1 o 5', '2 o 5' ayyb yn llinell pwnc y neges e-bost, fel ein bod yn gwybod faint i'w disgwyl ac yn gallu gwirio gyda chi os yw'n ymddangos bod rhai ar goll.</li> </ul>

## Atodiad 2

### Ffurflenni apêl a ysgrifennwyd â llaw a dogfennau eraill

Llenwch y ffurflen apêl mewn **LLYTHRENAU BRAS** gan ddefnyddio **inc du**.

### Dogfennau wedi'u teipio

Mae dogfennau mewn ffont sans serif yn haws eu darllen. Defnyddiwch ffont megis Arial neu Verdana mewn maint 11 pwynt neu'n fwy.

Os gwelwch yn dda

- defnyddiwch bapur **A4** ble bynnag sy'n bosibl;
- rhowch rifau ar dudalennau'r dogfennau;
- sicrhewch fod dogfennau wedi'u **llungopïo** yn glir ac yn ddarllenadwy;
- rhowch ffotograffau (rhai lliw os yw'n bosibl), mapiau, cynllunio, ayyb, mewn **atodlen ar wahân** a'u croesyfeirio o fewn prif gorff y ddogfen;
- rhwymwch ddogfennau fel y gellir eu datod yn gyflym heb ddifrodi'r ddogfen. Peidiwch â defnyddio rhwymwyr gwifr neu blastig sbiral;
- peidiwch â defnyddio taflenni gorchuddio, llewys neu rwymiadau eraill nad ydynt yn ychwanegu gwerth neu wybodaeth;
- peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol oni bai ein bod yn gofyn amdanynt yn benodol;
- peidiwch â chynnwys nodiadau gludiog neu atodiadau bach a allai ddod yn rhydd neu fynd ar goll yn rhwydd;
- argraffwch ddogfennau ar ddwy ochr y dudalen. Dylech ddefnyddio papur o ansawdd ddigon da fel nad yw rhywbeth a gaiff ei argraffu ar un ochr y dudalen yn ymddangos ar yr ochr arall;
- sicrhewch fod y raddfa, cyfeiriadedd a maint papur unrhyw fapiau a chynlluniau yn cael eu dangos yn glir.